# **Strategaeth Gwrth-fwlio**
# Plant a Phobl Ifanc
# **2024 - 2027**
# **Hawliau, parch, cydraddoldeb**

**Cyhoeddwyd Ebrill, 2021 gan Wasanaethau Addysg A Plant Sir Ddinbych**

# Cynnwys


1. Cyflwyniad
   1.1 Diben y strategaeth hon ........ 3
   1.2 Beth ydym yn gobeithio ei gyflawni gyda'r strategaeth hon? ........ 3

2. Herio bwlio yn Sir Ddinbych ........ 4
   2.1 Beth yw ymddygiad bwlio? Diffiniad ........ 4
   2.2 Pwy sy'n gysylltiedig â bwlio? ........ 5
   2.3 Y mathau o ymddygiad bwlio ........ 5
   2.4 Effaith bwlio ........ 6
   2.5 Y cyd-destun Cenedlaethol ........ 7
   2.6 Y cyd-destun Lleol ........ 7

3. Hyrwyddo partneriaeth gyda'r awdurdod lleol ........ 8
   3.1 Rôl yr awdurdod lleol ........ 8
   3.2 Rôl y gymuned ysgol ........ 9
   3.3 Monitro data bwlio a data cydraddoldeb ........ 11

4. Strategaethau gwrth-fwlio effeithiol mewn ysgolion ........ 12
   4.1 Datblygu polisi gwrth-fwlio ........ 12
   4.2 Adolygu'r polisi ........ 13
   4.3 Llais y dysgwyr ........ 14
   4.4 Rheoli ymddygiad bwlio ........ 14

5. Casgliad ........ 15
   5.1 Ymgynghori ar y strategaeth ........ 15
   5.2 Monitro'r strategaeth ........ 15

Atodiad 1 – Dogfennau allweddol ........ 16
Atodiad 2 – Camau i'w hystyried wrth ddatblygu polisi ........ 17
Atodiad 3 – Camau i'w hystyried wrth adolygu polisi ........ 19

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Diben y strategaeth hon

Mae'r strategaeth hon mewn grym o Ionawr 2021 i Ionawr 2023 ac mae'n darparu fframwaith sy'n disgrifio sut y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn mynd i'r afael â bwlio ac aflonyddwch mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc Sir Ddinbych yn ein cymunedau ysgol.

Mae Sir Ddinbych yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial, gan gynnwys yr hawl i ddysgu mewn amgylchedd diogel sy'n eu diogelu hwy. Mae'r strategaeth hon yn cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael â'r broblem o ymddygiad bwlio mewn ffordd gadarnhaol ar draws ein cymunedau ysgol ac mae wedi'i chynhyrchu ochr yn ochr â chanllaw statudol Herio Bwlio Llywodraeth Cymru – 'Hawliau, parch a chydraddoldeb' 'https://llyw.cymru/bwlio-yn-yr-ysgol a Deddf Cydraddoldeb 2010 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents er mwyn deall pwysigrwydd adnabod a diogelu'r unigolion hynny sy'n rhannu nodwedd warchodedig i'r un graddau â'r rhai heb nodwedd warchodedig. Mae Sir Ddinbych yn cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru o gydnabod bod herio bwlio yn flaenoriaeth allweddol ac y dylai ddigwydd mewn dull cyfannol drwy:

- mynd i'r afael â gwir achosion ymddygiad annerbyniol;
- creu amgylchedd cynhwysol ac atyniadol;
- rhoi blaenoriaeth ar lesiant;
- addysgu plant a phobl ifanc am fwlio a chynnal perthnasoedd parchus.

Mae Sir Ddinbych yn cydnabod bod bwlio yn digwydd a bod herio hynny yn gallu bod yn dasg enfawr sy'n gyfrifoldeb i bawb. Dyna pam mae'r awdurdod yn hyrwyddo'r angen i gydweithio i fod yn rhagweithiol a chreu cymunedau ysgol sy'n ystyried bwlio'n ddifrifol iawn a gweithredu i'w herio drwy fesurau ataliol ac ymyrraeth. Mae'r ddogfen hon yn bwriadu amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdod lleol a chymunedau ysgol yn herio bwlio, ac, fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017-2022, eu bod yn lle y mae pobl ifanc yn gallu a lle maent eisiau ffynnu a'u bod yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth i gyflawni eu potensial.

Mae'r ddogfen hon wedi'i hysbysu gan nifer o ddogfennau allweddol ac fe'ch argymhellir i'w darllen ochr yn ochr â hwy wrth ymgymryd ag unrhyw waith datblygu polisi gwrth-fwlio.
Mae Atodiad 1 yn darparu mwy o fanylion am ddogfennau allweddol.

## 1.2 Beth ydym yn gobeithio ei gyflawni gyda'r strategaeth hon?

Prif amcanion y strategaeth hon yw;

- **Cyfathrebu**: tynnu sylw holl staff yr awdurdod lleol sy'n gweithio gydag ysgolion neu sy'n gweithio ar yr hyn sy'n bwysig i ysgolion, ymwybyddiaeth o beth yw ymddygiad bwlio, effaith bwlio ar fywydau a chyfrifoldeb pawb i'w herio.
- **Ymrwymiad:** pwysleisio ymrwymiad Sir Ddinbych i leihau ymddygiad bwlio, lle bynnag y bo'n bosibl, ar draws ein cymunedau ysgol a sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn derbyn cefnogaeth i gyflawni eu potensial llawn.
- **Cysondeb**: darparu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn galluogi cysondeb ar draws ein cymunedau ysgol mewn agweddau at fynd i'r afael ag ymddygiad bwlio. Anelu at sicrhau bod pob cymuned ysgol yn hyrwyddo ethos cadarn sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn llwyddiannus.
- **Cydweithrediad**: hyrwyddo bod gan bawb gyfrifoldeb i gefnogi a mynd i'r afael ag ymddygiad bwlio drwy gydweithio a gweithio at yr un nodau.

- **Effeithiolrwydd**: i sefydlu a chynnal mesurau cyson ar gyfer adrodd digwyddiadau o fwlio ar draws ein cymunedau ysgol er mwyn gallu nodi, cefnogi a mynd i'r afael â phatrymau/tueddiadau.

## 2. Herio bwlio yn Sir Ddinbych

### 2.1 Beth yw ymddygiad bwlio? Diffiniad

Nid oes gan Gymru ddiffiniad cyfreithiol o fwlio, fodd bynnag, mae'n cydnabod yr angen i gymunedau ysgol gytuno ar ddiffiniad sy'n galluogi cysondeb ar draws polisïau a gweithdrefnau er mwyn herio ymddygiad bwlio. Wrth ystyried y diffiniadau a ddefnyddir yn eang a'r mathau cydnabyddedig o ymddygiad bwlio, mae yna dair egwyddor gyffredin:

- Ymddygiad y gellir ei arddangos gan unigolyn neu grŵp.
- Ymddygiad y bwriedir iddo achosi niwed i eraill (corfforol neu emosiynol).
- Ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd dros amser fel arfer (yn hytrach na digwyddiad untro).

Yn seiliedig ar hyn, mae dogfennau Llywodraeth Cymru, Hawliau, parch, cydraddoldeb, yn diffinio bwlio fel:

"Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sy'n cael ei ailadrodd yn raddol dros gyfnod, sy'n niweidio eraill yn fwriadol, naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol."
https://llyw.cymru/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-awdurdodau-lleol - tud. 14.

Er mwyn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru, dylid defnyddio'r termau 'targed' a 'tramgwyddwr' yn awr i ddisgrifio'r rolau sy'n cael eu cyflawni gan y rhai sy'n gysylltiedig â'r weithred o fwlio a'r term 'gwyliedyddion' ar gyfer y rhai sy'n tystio bwlio.

Er y cydnabyddir y gall digwyddiadau untro o ymddygiad negyddol, er enghraifft dadleuon neu gyfeillgarwch yn dod i ben, achosi gofid i'r rhai sy'n gysylltiedig a gallai fod risg o ddial neu ddigwyddiadau eraill yn y dyfodol, argymhellir y dylid mynd i'r afael ag ymddygiad o'r fath o fewn polisi ymddygiad yr ysgol, gyda'r nod o'i ddatrys a pheidio gadael i hyn ddatblygu i fod yn fwlio.

Nid yw bwlio yn cael ei ddiffinio fel trosedd, fodd bynnag, mae gan bob plentyn a pherson ifanc a rhieni/gofalwyr yr hawl i adrodd digwyddiadau o'r fath i'r heddlu. Pan fydd digwyddiad o fwlio yn digwydd ac os bydd yn cael ei adrodd i'r heddlu, bydd yr heddlu yn ail-fframio'r digwyddiad mewn diffiniad o 'drosedd' sy'n bodoli ac sy'n cael ei ddiffinio drwy statud. Felly, gallai nifer o'r mathau o ymddygiad, sy'n cael eu galw'n fwlio yng nghyd-destun yr ysgol, gael eu diffinio'n wahanol gan y gyfraith (e.e. ymddygiad bygythiol, difrod troseddol, dwyn, ymosodiad, digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn). Gall rhai achosion o fwlio godi pryderon hefyd o ran dioddefaint plentyn neu berson ifanc ac mae'n ofynnol i'r ysgol hysbysu Gwasanaeth Plant yr awdurdod lleol ynglŷn â hyn. Mae eglurhad pellach o'r maes hwn ar gael yn nogfennaeth Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion – Adran 5, y gyfraith sy'n ymwneud â bwlio.

Efallai na fydd bwlio wedi'i gyfyngu i ddigwyddiadau rhwng plant a phobl ifanc. Gellir gwneud honiadau o fwlio rhwng a thuag at oedolion hefyd. Dylid cydnabod digwyddiadau posibl o'r fath ym mholisïau'r ysgol. Gallai athrawon ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fod yn agored i fod yn dargedau o fwlio. Mae angen iddynt gymryd camau i ddiogelu eu hunain, er enghraifft, drwy gyfyngu mynediad at eu gwybodaeth a'u hoffer personol yn ofalus.

**2.2 Pwy sy'n gysylltiedig â bwlio?**

| Y Tramgwyddwr | Y Targed |
|---|---|
| Mae hyn yn cyfeirio at blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad bwlio at eraill | Mae hyn yn cyfeirio at blant a phobl ifanc sy'n cael eu bwlio |

| Y Gwyliedydd |
|---|
| Person sy'n bresennol, naill ai ar-lein neu all-lein, mewn digwyddiad o fwlio ond nad yw'n cymryd rhan |

**2.3 Y mathau o ymddygiad bwlio**

Gall bwlio gynnwys amrediad o fathau o ymddygiad ac ar adegau cyfuniad o ymddygiad. Ymhlith yr enghreifftiau cyffredin mae:

**Bwlio corfforol:** gallai hyn gynnwys gweithredoedd corfforol yn erbyn y targed, er enghraifft taro, cicio, gwthio, achosi difrod i eiddo rhywun arall.

**Bwlio llafar**: gallai hyn gynnwys lledaenu sibrydion, galw enwau, pryfocio, siarad am bobl gydag eraill, gyda'r nod o'u cywilyddio'n fwriadol neu wneud iddynt deimlo'n ddrwg.

**Bwlio ar-lein**: Gall yr oes ddigidol y mae plant a phobl ifanc yn byw ynddi ddarparu profiadau cadarnhaol a negyddol y gall fod yn heriol i'w rheoli yn a'r tu allan i'r gymuned ysgol. Er bod bwlio ar-lein, a elwir yn aml yn seiber fwlio, wedi'i nodi a'i gydnabod fel newid arwyddocaol ym maes bwlio, mae ymchwil yn pwysleisio bod bwlio all-lein yn parhau i fod yn fwy cyffredin a phan fydd yn cael ei gyflawn ar-lein mae'n aml yn adlewyrchu ymddygiad bwlio all-lein (e.e. galw enwau, lledaenu sibrydion). Fodd bynnag, dangoswyd bod lefel y gofid a achosir gan fwlio ar-lein yn fwy arwyddocaol i'r targed(au). Y rheswm dros hyn yw:

- Gall y gynulleidfa fod yn anghyfyngedig.
- Gall ddigwydd unrhyw le ac unrhyw amser, nid oes seibiant ohono.
- Gall gynnwys pobl anhysbys, er bod y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys cyfoedion hysbys.
- Mae technoleg yn galluogi i ddelweddau a negeseuon gael eu storio er mwyn ail-edrych arnynt. Cydnabyddir hefyd, drwy'r gallu i weithredu'n anhysbys, gallai'r tramgwyddwr/tramgwyddwyr weithredu gyda mwy o fwriad a difrifoldeb, na phe byddent yn gweithredu wyneb yn wyneb.

Pan fydd bwlio ar-lein yn effeithio ar lesiant myfyrwyr, mae disgwyliad y bydd cymunedau ysgol yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn a rhan o hyn fydd yr angen i oedolion sicrhau eu bod yn wybodus ynglŷn â'r byd digidol, sy'n newid yn gyflym, y mae plant a phobl ifanc yn cael

mynediad iddo. Mae eglurhad pellach o'r maes hwn ar gael yn nogfennaeth Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion Adran 4, bwlio ac ymosodedd ar-lein.

**Bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn**: Mae bwlio yn aml yn canolbwyntio ar wahaniaethau unigol neu unrhyw beth yr awgrymir ei fod yn wahanol i'r mwyafrif a/neu dramgwyddwr y bwlio. Gallai hyn gynnwys gweithredoedd o fwlio tuag at bobl â nodweddion gwarchodedig (e.e. anabledd, rhyw, rhywioldeb, ethnigrwydd, hil, ymddangosiad, treftadaeth grefyddol) a byddai hyn yn cael ei alw'n fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn. Gellir cyfeirio ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhagfarn hefyd at yr unigolion hynny heb nodweddion gwarchodedig (e.e. Anghenion Dysgu Ychwanegol). Byddai termau cysylltiedig eraill yn cynnwys 'bwlio ar sail hunaniaeth', 'bwlio gwahaniaethol', 'bwlio sy'n gysylltiedig â chasineb', neu 'fwlio yn seiliedig ar anghydraddoldeb'. Mae'r math hwn o fwlio yn debygol o danseilio unrhyw waith mae cymuned ysgol yn ei wneud i hyrwyddo parch, cyfle cyfartal ac addysgu egwyddorion moesegol cymdeithasol a dderbynnir yn gyffredin. Mae eglurhad pellach o'r maes hwn ar gael yn nogfennaeth Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion – Adran 3, bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn.

### 2.4 Effaith bwlio

Gall bwlio'r gael effaith negyddol ar bawb sy'n gysylltiedig â hyn ac mae angen dealltwriaeth a phwysleisio er mwyn ei atal a'i herio. Mae gwaith ymchwil sylweddol yn pwysleisio'r effaith tymor byr a hirdymor y gall bwlio ei chael ac yn ddealladwy mae'n debygol o gynyddu, yr hiraf y bydd yn parhau a bydd yn benodol i bob unigolyn. Mae yna lawer o ffactorau sy'n gallu dylanwadu ar effaith y bwlio, yn arbennig adnoddau personol yr unigolyn i'w reoli a'r systemau o gefnogaeth sydd ganddynt o'u hamgylch. Heb gefnogaeth, gall effaith bwlio fod yn bellgyrhaeddol, gan effeithio ar ddatblygiad personol, datblygiad cymdeithasol, cyflawniadau addysgol, iechyd meddwl a llesiant.

Gallai'r effeithiau posibl ar y TRAMGWYDDWR gynnwys:
- Teimladau a mynegiadau o ddicter.
- Colli cyfeillgarwch/perthnasoedd gyda chyfoedion.
- Risg o ddatgysylltiad oddi wrth addysg.
- Effaith negyddol ar gyflawniadau academaidd.
- Risg o ymgysylltu mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol.
- Risg gynyddol o sicrhau euogfarn droseddol.
- Llai o deimladau o empathi – beio'r targed am y bwlio.

Gallai'r effeithiau posibl ar y TARGED gynnwys:
- Teimladau o orbryder ac ofn.
- Cwynion iechyd cynyddol.
- Presenoldeb is yn yr ysgol.
- Anawsterau i ganolbwyntio.
- Hunan-fri a hunanwerth isel.
- Cynnydd mewn ynysiad cymdeithasol a theimladau o unigrwydd.
- Colli diddordeb mewn gweithgareddau roeddynt yn eu mwynhau'n flaenorol.
- Iselder a mynd i'w cragen.
- Ystyried hunanladdiad.
- Lefelau isel o wydnwch.
- Yn datblygu 'hunan-feio', math o ymddygiad ymdopi lle bydd person yn beio eu hunain am y sefyllfa maent ynddi, gan arwain at deimladau o ddiymadferthedd.

Gallai'r effeithiau posibl ar y GWYLIEDYDD gynnwys:

- Teimladau o euogrwydd neu ddiymadferthedd.
- Teimladau o ofid, gorbryder neu ofn o'r hyn maent wedi'i weld neu wedi'i ddweud am y bwlio.
- Teimladau uwch o bwysau gan gyfoedion.
- Colli cyfeillgarwch/statws cymdeithasol.
- Ofn dod yn ddioddefwr eu hunain neu eu diogelwch eu hunain.
- Presenoldeb is yn yr ysgol.

Gall penderfyniad gwyliedydd i ymyrryd ai peidio yn y bwlio fod yn her fawr a gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar hyn. Er enghraifft, ystyried eu perthynas gyda'r tramgwyddwr a/neu'r targed, eu barn ynghylch a ddylai neu a allai rhywun arall ymyrryd, eu barn am y targed, pryder am eu diogelwch eu hunain.

**2.5 Y Cyd-destun Cenedlaethol**

Mae Adolygiad Blynyddol Childline 2018/19 yn datgan eu bod wedi:

- Darparu 15,851 o sesiynau cwnsela ar gyfer maes bwlio.

  https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/childline-annual-review

Canfu Arolwg Bwlio Blynyddol Ditch the Label 2019, o'r 7,347 o bobl ifanc 12 i 20 oed a holwyd am eu profiadau o fwlio, roedd:

- 22% yn teimlo eu bod wedi'u bwlio yn y 12 mis diwethaf.
- 27% yn teimlo eu bod wedi bod yn dyst i fwlio.
- 2% yn teimlo eu bod wedi bwlio rhywun.
- O'r rhai a oedd yn teimlo eu bod wedi'u bwlio, roedd 31% wedi'u bwlio o leiaf unwaith y dydd a 45% o leiaf unwaith y mis, gydag effeithiau arnynt yn cynnwys teimladau o iselder, pryder, ymgysylltu mewn ymddygiad hunan-niwed a phrofi teimladau hunanladdol.
- O'r rhai a oedd yn teimlo eu bod wedi'u bwlio, roedd y mwyafrif ohonynt (59%) yn teimlo bod hyn wedi digwydd oherwydd agweddau at eu hymddangosiad.
- 11% o'r rhai a oedd yn teimlo eu bod wedi'u bwlio wedi ceisio lladd eu hunain.
- 72% o'r unigolion hyn a oedd wedi profi bwlio wedi gallu siarad gyda rhywun ynglŷn â beth oedd yn digwydd, ond nid oedd 28% wedi gallu gwneud hyn. Y person mwyaf tebygol iddynt siarad gyda hwy oedd athro/athrawes neu aelod o'u teulu.

  https://www.ditchthelabel.org/research-papers/the-annual-bullying-survey-2019/

**2.6 Y Cyd-destun Lleol**

Mae Sir Ddinbych yn cynnal wyth ysgol uwchradd, 47 ysgol gynradd, dwy ysgol arbennig ac uned cyfeirio disgyblion. Wrth gymharu'r boblogaeth leol yn erbyn y boblogaeth genedlaethol, gellir nodi bod:

- 17.9% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru o 19.9%.
- 6.6% o'r disgyblion yn dod o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 10.6%
- 21.9% o ddisgyblion Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 20.8%

Roedd Arolwg gan Estyn ym mis Chwefror 2018 o'r farn bod y canlyniadau cyffredinol i ddysgwyr ac ansawdd y gwasanaethau addysgol yn 'Dda' a bod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn 'Rhagorol'. Nodwyd:

'Mae gan yr awdurdod ddiben moesol cadarn sy'n sail i'w wasanaethau addysg, sy'n canolbwyntio ar uchelgais i gynyddu cyfleoedd bywyd i'r eithaf i bob dysgwr'

Mae gwybodaeth o arolwg clwstwr Sir Ddinbych o Agweddau Disgyblion at ei Hunain a'r Ysgol (PASS) ar gyfer Medi 19 at fis Rhagfyr 19 yn dangos bod myfyrwyr ar draws y tri chyfnod allweddol wedi adrodd sgorau boddhad uchel gyda'u profiad o'r ysgol mewn cysylltiad â'u teimladau am yr ysgol. Mae hyn yn ymgorffori ymdeimlad myfyrwyr o lesiant, diogelwch a chyfforddusrwydd yn yr ysgol.

Mae gwybodaeth gan y Rhwydwaith Ymchwil i Iechyd Ysgolion ar gyfer Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yn Sir Ddinbych yn 2019/20 yn dangos, o blith 4537 o fyfyrwyr yn wyth ysgol uwchradd yr awdurdod, bod:

- 13% yn teimlo eu bod wedi cymryd rhan yn bwlio myfyriwr arall yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 15%.
- 31% yn teimlo eu bod wedi cael eu bwlio yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 33%.
- 16% yn teimlo eu bod wedi'u seiber fwlio yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18%.
- Y rhesymau mwyaf cyffredin y mae myfyrwyr yn credu y cafodd pobl eu bwlio yn eu grŵp blwyddyn yw:
  - Oherwydd eu pwysau (52%).
  - Oherwydd eu bod yn hoyw, lesbiaid neu ddeurywiol (37%).
  - Ddim yn gwybod (23%).

## 3. <u>Hyrwyddo partneriaeth gyda'r awdurdod lleol</u>

Elfen allweddol o unrhyw strategaeth gwrth-fwlio yw proses sy'n galluogi i gymunedau ysgol a'r unigolion hynny sy'n gyfrifol am gamau gwrth-fwlio, weithio'n effeithiol ac mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn darparu nifer o asiantaethau/gwasanaethau cymorth i anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc ar draws pob cymuned ysgol a byddant yn bwydo'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol i'r maes o herio ymddygiad bwlio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad (BSS).
- Gwasanaeth Seicoleg Addysgol (EPS)
- Gwasanaeth Lles Addysg (EWS).
- Gwasanaeth Cwnsela yn yr Ysgol.
- Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gwasanaeth Ieuenctid.

Sefydlwyd Grŵp Iechyd a Llesiant Sir Ddinbych ar gyfer sefydliadau ysgol ym mis Gorffennaf 2016 ac mae'n parhau i gyfarfod bob tymor. Diben cyffredinol hyn yw hyrwyddo proses lle bydd partneriaid, gwasanaethau'r awdurdod lleol ac ymarferwyr ysgolion yn cydweithio i ddatblygu dealltwriaeth gyffredinol o'r agenda iechyd a llesiant ar gyfer addysg yng Nghymru ac i wneud argymhellion strategol sy'n cael effaith weithredol yn ysgolion Sir Ddinbych.

### 3.1 Rôl yr awdurdod lleol

Mae cynnwys y strategaeth hon yn ceisio darparu cyngor a chymorth i bob lleoliad ysgol yr awdurdod lleol er mwyn atal a herio bwlio a lliniaru ei effeithiau pan fydd yn digwydd yn eu cymunedau. I gefnogi hyn gellir disgwyl i'r awdurdod lleol:

- Annog ysgolion yn weithredol i ddefnyddio dull sefydledig a gweithredu rhaglenni yn gywir ac effeithiol.
- Cefnogi cyfnod pontio myfyrwyr rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed sy'n ymuno ag ysgolion newydd.
- Hyrwyddo proses o rannu dulliau gwrth-fwlio rhwng ysgolion bwydo ac ysgolion uwchradd.
- Darparu cyngor a gwybodaeth i ysgolion, plant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr am fwlio - https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/addysg-ac-ysgolion/gwybodaeth-ar-gyfer-ysgolion/anti-bullying/gwrth-fwlio.aspx
- Cynnal cyswllt parhaus gyda gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol i hybu a herio bwlio ar draws y gymuned.
- Parhau i fonitro amcanion cydraddoldeb yr awdurdod a'r ysgol a gweithio i gyflawni'r rhain.
- Hyrwyddo llais y dysgwr a galluogi iddynt gyfrannu mewn penderfyniadau ar herio bwlio.
- Hyfforddi staff priodol sy'n derbyn galwadau mewn un gwasanaeth pwynt mynediad unigol er mwyn ymateb yn briodol.
- Darparu gwasanaeth cwnsela annibynnol ar gyfer anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych.

Bydd y mesurau hyn yn cael eu cefnogi drwy sicrhau bod yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda nifer o wasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Nod cyffredinol unrhyw gydweithio fydd sicrhau ateb i sefyllfa fwlio sy'n galluogi'r rhai sy'n gysylltiedig â hyn ddysgu ac aeddfedu yn eu hysgol. Cydnabyddir y gallai hyn gymryd amser ac amynedd mewn rhai sefyllfaoedd, wrth i ymyriadau gael eu gweithredu a'u cefnogi.

Mae'r awdurdod yn disgwyl i bob ysgol sicrhau bod ganddynt weithdrefnau cwyno priodol ar waith a'u bod yn ymwybodol bod gan rieni/gofalwyr yr hawl i gyfeirio eu cwyn i'r awdurdod os ydynt yn credu nad yw'r ysgol a chorff llywodraethu'r ysgol wedi dilyn y broses yn llwyr. Yna byddai'r awdurdod lleol yn delio â'r gŵyn o fewn proses gwyno Llywodraeth Cymru.

### 3.2 Rôl y gymuned ysgol

Mae ysgolion mewn sefyllfa ddelfrydol i chwarae rôl allweddol yn mynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â bwlio. Drwy herio bwlio yn effeithiol, gall ysgolion greu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc, a'u helpu i gyflawni eu potensial a gwella eu hiechyd a'u llesiant emosiynol. Mae hefyd yn dangos bod hyn yn flaenoriaeth i'r ysgol ac mae'n dangos yn glir bod ymddygiad bwlio yn annerbyniol ac y bydd yn cael ei herio.

Dylai bod corff llywodraethu effeithiol yn ffurfio bwa dros gymuned yr ysgol, sy'n gweithredu er budd gorau eu dysgwyr bob amser ac sy'n sicrhau bod polisïau effeithiol ar waith i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Disgwylir i bob ysgol yn Sir Ddinbych sicrhau bod ganddynt fesurau ar waith i atal pob math o fwlio a bydd gan ysgolion effeithiol agwedd ragweithiol at hynny. Mae hyn yn cynnwys ymateb

i liniaru effeithiau ymddygiad bwlio pan fydd yn digwydd, yn ogystal ag addysg plant a phobl ifanc a hyfforddi staff ynghylch:

- parch;
- ymddygiad cadarnhaol;
- ystrydebau;
- mynd i'r afael â rhagfarn;
- magu hyder i adnabod a herio ymddygiad bwlio;
- perthnasoedd effeithiol;
- gwydnwch;
- datrys problemau.

Dylai'r holl ddulliau gweithredu fod ar waith, nid yn unig er mwyn ymateb i anghenion targedau bwlio ond hefyd y tramgwyddwr a'r gwyliedyddion, a chanolbwyntio ar barch, cyfrifoldeb, datrys a chefnogaeth drwy ddulliau rhagweithiol megis Dulliau Adferol a Dulliau sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau. Gellir defnyddio gwybodaeth o gymuned yr ysgol ei hun hefyd i dywys strategaethau – er enghraifft Data Arolwg (Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol). Byddai'n debygol bod ysgolion mewn sefyllfa dda i nodi'n unigol y rhaglenni a'r dulliau gweithredu mwyaf priodol ar gyfer eu cymuned eu hunain.

Mae hefyd yn bwysig bod myfyrwyr yn cael eu grymuso i ymgysylltu ag arferion gwrth-fwlio a, lle y bo'n bosibl, creu eu syniadau eu hunain a chymryd perchenogaeth dros y maes gwaith hwn. Mae arferion sy'n cael eu harwain gan fyfyrwyr yn debygol o arwain at ymgysylltiad a chymhelliant uwch ymhlith plant a phobl ifanc.

**Ymgysylltu â rhieni/gofalwyr**

Byddai disgwyl i ysgolion sy'n ymgysylltu'n llwyddiannus â rhieni a gofalwyr yn y maes gwaith hwn sicrhau mwy o lwyddiant yn atal a mynd i'r afael â digwyddiadau o fwlio. Byddai hyn yn bwerus oherwydd byddai'n galluogi i fyfyrwyr dderbyn neges gyson na fydd bwlio yn cael ei oddef a chysondeb o ran sut y bydd yn cael ei reoli a'i drin.

Fodd bynnag, ceir cydnabyddiaeth bod ysgolion yn wynebu nifer o heriau yn y maes hwn ac er gwaethaf eu hymdrechion gorau, gallant ganfod ei bod yn anodd cyrraedd ac ymgysylltu â rhai rhieni. Er gwaethaf hyn, mae'n bwysig i ysgolion gynnal rhaglenni parhaus i hyrwyddo ymgysylltiad ac annog rhieni i siarad gyda'r ysgol unrhyw bryd. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'polisi drws agored.' Gallai enghreifftiau eraill o ymgysylltu gynnwys:

- Gwasanaethau dosbarth sy'n trafod maes bwlio a phwysleisio rolau myfyrwyr a rhieni/gofalwyr mewn gwaith gwrth-fwlio.
- Neilltuo meysydd o wefan yr ysgol i wrth-fwlio.
- Fforymau/digwyddiadau rheolaidd ar gyfer rhieni a gofalwyr lle gellir codi a thrafod bwlio.
- Sesiynau/adnoddau gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o fwlio, mathau o fwlio, effaith bwlio ac yn y blaen.

Mae llawer o ysgolion wedi cynnwys digwyddiadau yn awr yn ystod nosweithiau rhieni, dyddiau agored yr ysgol ac yn y blaen, lle gellir gweld bod rhieni eisoes yn ymgysylltu.

Efallai y bydd hefyd yn bosibl ystyried a all ysgolion o fewn yr un ardal/clwstwr gydweithio i ymgysylltu â'r gymuned a rhannu negeseuon cyson.

**Bwlio y tu allan i dir yr ysgol**

Mae gan athrawon y pŵer i ddisgyblu disgyblion am gamymddwyn y tu allan i leoliad yr ysgol 'i'r graddau y mae hynny'n rhesymol'. Gall hyn fod yn gysylltiedig ag unrhyw ddigwyddiadau bwlio sy'n digwydd unrhyw le oddi ar dir yr ysgol, er enghraifft ar gerbydau cludiant yr ysgol neu gludiant cyhoeddus, y tu allan i siopau lleol, neu yng nghanol tref neu bentref.

Pan fydd achosion o fwlio y tu allan i'r ysgol yn cael eu hadrodd i staff yr ysgol, dylid ymchwilio i'r rhain a gweithredu arnynt. Dylai'r pennaeth ystyried hefyd a yw'n briodol hysbysu'r heddlu neu gydlynydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hawdurdod lleol ynglŷn â'r camau gweithredu a gymerwyd yn erbyn disgybl. Os gellir ystyried bod y camymddwyn yn droseddol neu'n fygythiad difrifol i aelod o'r cyhoedd, dylid hysbysu'r heddlu bob amser.

Ym mhob achos o gamymddwyn neu fwlio, bydd yr athro/athrawes ond yn gallu disgyblu'r disgybl ar dir yr ysgol neu rywle arall pan fydd y disgybl o dan reolaeth gyfreithiol yr aelod o staff.

Pan fydd yn briodol, disgwylir i ysgolion rannu gwybodaeth hefyd gydag asiantaethau allanol er mwyn cydweithio er budd pob plentyn a pherson ifanc.

**3.3 Monitro data bwlio a data cydraddoldeb**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gael Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Diben y cynllun hwn yw iddynt gyflawni eu dyletswyddau i hybu cydraddoldeb i bobl â 'nodweddion gwarchodedig', ac ymgorffori tegwch a chydraddoldeb wrth wraidd cymuned eu hysgol ym mhob agwedd ar gynlluniau a pholisïau'r ysgol. Fel rhan o hyn disgwylir i ysgolion gofnodi digwyddiadau o fwlio ac aflonyddwch ar sail unrhyw fater sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

Mae pob ysgol yn Sir Ddinbych yn gyfrifol am gofnodi eu data eu hunain o ddigwyddiadau bwlio ymysg eu poblogaeth. Disgwylir i aelod priodol o staff yr ysgol ymchwilio i bob digwyddiad er mwyn penderfynu a yw'n cynrychioli ymddygiad bwlio a bod camau gweithredu priodol wedi'u gweithredu yn seiliedig ar bolisi a chanllawiau'r ysgol. Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod unrhyw wybodaeth y byddant yn ei chofnodi, ei chynnal a'i monitro, yn cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data, er enghraifft GDPR yr UE a DPA y DU 2018. Mae eglurhad pellach o'r maes hwn ar gael yn nogfen Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion - Adran 11, gwerthuso ac atebolrwydd.

Arfer gorau fyddai cofnodi pob digwyddiad wrth iddynt ddigwydd ac mae'r system gofnodi SIMS yn galluogi hynny. Dylai ysgolion hefyd fod yn archwilio ac yn sicrhau ansawdd eu data yn rheolaidd er mwyn gallu ei ddefnyddio i lywio arfer ynghylch ymddygiad bwlio o fewn eu poblogaeth. Ystyrir bod adrodd digwyddiadau bwlio yn arwydd cadarnhaol bod plant a phobl ifanc wedi teimlo eu bod wedi gallu dod ymlaen a chael llais. Mae ysgolion sy'n monitro'r maes hwn yn rheolaidd yn gallu addasu eu polisïau a'u harferion bwlio er mwyn ymateb i dueddiadau a materion a chymryd camau rhagweithiol.

Bob dwy flynedd (Hydref ac Ebrill) bydd yr awdurdod un gofyn am ddata digwyddiadau bwlio gan ysgolion try daflen gofnodi SIMS. Bydd y data hwn wedyn yn cael ei goladu gan yr awdurdod. Mae'r categorïau a ddefnyddir er mwyn cofnodi digwyddiadau bwlio yn galluogi i wybodaeth gael ei choladu mewn cysylltiad â digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn a nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r categorïau hefyd yn galluogi i'r math a'r dull o fwlio gael eu cofnodi ac wrth edrych ar hyn yn ei gyfanrwydd

y bwriad yw y bydd ysgolion a'r awdurdod lleol yn gallu monitro patrymau ac atal gwahaniaethu. Nid yw data yn cael ei goladu mewn ffordd sy'n galluogi i'r awdurdod lleol adnabod unigolion.

Mae'n bosibl bod gan ysgolion sy'n adrodd na fu unrhyw ddigwyddiadau bwlio yn eu cymuned, mewn gwirionedd, ddysgwyr nad ydynt yn teimlo'n ddiogel i'w hadrodd neu nid oes ganddynt neu nid ydynt yn deall y mesurau adrodd. Fel awdurdod, gallai fod yn briodol herio achosion o ddim digwyddiadau er mwyn sicrhau llesiant dysgwyr ac i ofyn am adroddiad gan yr ysgol ar sut maent yn bwriadu datblygu gwaith gwrth-fwlio yn eu cymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd gynnwys gwaith a data gwrth-fwlio yn eu hadroddiad blynyddol i'w Corff Llywodraethu, a'u rôl hwy yw gweithredu er budd gorau eu dysgwyr.

ae cofnodi digwyddiadau bwlio hefyd yn galluogi i ddigwyddiadau casineb posibl gael eu monitro, er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Pan fydd ysgolion yn credu bod digwyddiad casineb wedi'i nodi, disgwylir iddynt geisio cyngor gan y gwasanaethau statudol a/neu Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sefydlu a yw'r digwyddiad yn cyflawni'r trothwy i'w atgyfeirio o dan y term trosedd gasineb ac yna gweithredu'n unol â hynny.

## 4. Strategaethau gwrth-fwlio effeithiol mewn ysgolion

Mae'r gyfraith yn mynnu bod gan bob ysgol bolisi i atal pob math o fwlio o fewn ei chymuned. Dylai'r polisi hwn fod yn bolisi ar wahân i'r polisi gwrth-fwlio, ond un sy'n cysylltu'n uniongyrchol â pholisi ymddygiad yr ysgol ac sy'n cysylltu â pholisïau perthnasol eraill, er enghraifft amddiffyn, presenoldeb, defnydd derbyniol o TGCh, diogelwch ar-lein, ymddygiad wrth deithio a gwaharddiadau. Bydd angen i benaethiaid a chyrff llywodraethu sicrhau bod eu polisïau yn cydymffurfio â nifer o ddarnau allweddol o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1991).
- Deddf Hawliau Dynol 1998.
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 2000 – sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion lunio polisi cydraddoldeb hiliol a sicrhau nad yw polisïau yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau hiliol. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar ysgolion i 'hybu cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da'.
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd Rhan 4 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001) – Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyfrifol ysgol i wneud addasiadau rhesymol i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion sy'n rhoi disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol o gymharu â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl.
- Deddf Cydraddoldeb 2010 – sy'n cyfeirio'n benodol at fwlio ar sail nodweddion gwarchodedig disgybl o fewn y polisi.
- Deddf Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2014.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae lansio a gweithredu strategaeth yn llwyddiannus yn golygu cynnwys y gymuned ysgol gyfan, argymhellir bod pob ysgol yn penodi Arweinydd Gwrth-Fwlio sy'n gallu ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau a'u dynodi er mwyn gallu cynnal polisi'n llwyddiannus dros amser drwy ddatblygu, gweithredu, adolygu, monitro effeithiolrwydd a datblygiad parhaus.

### 4.1 Datblygu polisi gwrth-fwlio

Dylid creu polisi gwrth-fwlio mewn ymgynghoriad â'r gymuned ysgol gyfan; dysgwyr, staff, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a phartneriaid yn y gymuned. Dylai polisi cytûn fod yn fyr,

cryno ac wedi'i ysgrifennu mewn iaith y mae pawb yn ei deall. Mae'n arfer da cynhyrchu fersiwn o'r polisi sy'n addas ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae cyngor Llywodraeth Cymru yn nodi'r meysydd allweddol a fyddai'n cael eu hamlinellu mewn polisi effeithiol, byddent yn debygol o fod wedi'u rhannu'n adrannau clir sy'n cynorthwyo'r darllenwr i ddeall y canlynol yn llawn:

- gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol;
- diffiniad yr ysgol o beth yw bwlio;
- pam ei bod yn bwysig atal a herio bwlio;
- sut y codir ymwybyddiaeth o fwlio;
- sut y bydd gwaith gwrth-fwlio yn cael ei ymgorffori yn y cwricwlwm yn hytrach na digwyddiad blynyddol ynysig;
- cynnwys staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn y broses o ddatblygu a gweithredu'r polisi;
- arwyddion y gallai plentyn neu berson ifanc fod yn dioddef bwlio;
- sut y bydd bwlio yn cael ei atal, gan gynnwys ar deithiau yn ôl ac ymlaen i'r ysgol;
- sut y bydd yr ysgol yn ymateb i ddigwyddiadau;
- sut i adrodd bwlio;
- beth gall dysgwyr ei ddisgwyl;
- beth gall rhieni/gofalwyr ei ddisgwyl;
- sut y bydd digwyddiadau yn cael eu cofnodi a'u monitro;
- sut y gall dysgwyr a/neu rieni/gofalwyr uwchgyfeirio'r mater yn briodol os nad ydynt yn credu bod eu pryderon yn derbyn ystyriaeth ddifrifol;
- sut y bydd yr ysgol yn gwerthuso ac adolygu eu polisi a'u strategaeth.

Dylid nodi hefyd y dylai polisïau megis rhai gwrth-fwlio nodi disgwyliadau yn glir o ymddygiad y dysgwr ar y safle ac oddi ar safle'r ysgol. Mae eglurhad pellach o'r maes hwn ar gael yn nogfen Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion – Adran 6, ymddygiad y tu allan i'r ysgol a delio â digwyddiadau o gamymddwyn ar ac oddi ar dir yr ysgol.

Pan fydd polisi'n cael ei gyflwyno, mae'n hollbwysig bod staff ysgol yn teimlo'n barod a hyderus i ddelio ag unrhyw achosion o ddigwyddiadau bwlio sy'n cael eu hadrodd iddynt – gan nodi y disgwylir i adroddiadau gynyddu pan fydd polisi newydd yn cael ei lansio. Mae hefyd yn bwysig bod staff yn derbyn hyfforddiant parhaus mewn cysylltiad â'r polisi a'i weithdrefnau a'u bod yn cael eu cynnwys yn hyfforddiant sefydlu staff newydd. Er bod hyfforddiant cyffredinol ym maes bwlio yn bwysig, mae angen ystyried hefyd cynnal hyfforddiant sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig a deddfwriaeth berthnasol sy'n bwydo i mewn i waith gwrth-fwlio. Nod hyn yw i staff deimlo'n hyderus yn gweithredu rôl fwy rhagweithiol yn y maes gwaith hwn.

Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau hefyd bod copi o'r polisi ar gael mewn ystod o fformatau, yn unol ag anghenion y disgyblion/rhieni/rhanddeiliaid, er mwyn iddo fod ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y rhai y nodwyd ei bod yn anodd ymgysylltu â hwy.

### 4.2 Adolygu'r polisi

Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliad y dylid adolygu pob polisi o leiaf bob tair blynedd neu'n gynharach yng ngoleuni menter newydd neu newid perthnasol ehangach i'r polisi. Mae hyn yn debygol o gael ei oruchwylio gan Arweinydd Gwrth-fwlio'r ysgol ond mae'n rhaid cynnwys ymgynghoriad ac ymgysylltiad ehangach.

Camau i'w hystyried wrth adolygu polisi:

Cam 1 – Gweithgor – dylid cynnwys Arweinydd Gwrth-fwlio'r ysgol.

Cam 2 – Ymgynghori – pa mor effeithiol yw'r polisi presennol? Dylid cynnwys staff yr ysgol, dysgwyr, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol perthnasol.

Cam 3 – Nodi cryfderau a gwendidau'r polisi presennol drwy'r wybodaeth a gasglwyd yng Ngham 2.

Cam 4 – Gwneud newidiadau priodol i'r polisi.

Cam 5 – Ei gasglu ynghyd ac ymgynghoriad pellach os bydd angen.

Cam 6 – Y drafft terfynol a thu hwnt.

Gweler Atodiad 2 a 3 am arweiniad pellach ar ddatblygu ac adolygu polisi.

### 4.3 Llais dysgwyr

Ers 2002 mae'r Ddeddf Addysg yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ymgynghori â dysgwyr ac mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi hyn drwy ddatgan ei fod yn gam hanfodol ym mhob cam o waith gwrth-fwlio. Mae ysgolion sy'n annog cyfranogiad eu dysgwyr yn darparu cyfle iddynt gyfrannu at benderfyniadau ar faterion sy'n effeithio arnynt hwy ac yn darparu ymdeimlad o berthyn a pherchnogaeth dros faterion yn eu cymuned ysgol.

Canfu arolwg Estyn o Sir Ddinbych yn 2018:

'Mae'r awdurdod yn rhoi pwysigrwydd mawr ar lais y dysgwyr, gan sicrhau bod llawer o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfleoedd pwrpasol i rannu eu safbwyntiau, pryderon a'u syniadau ar gyfer gwelliannau. Mae hyn yn sicrhau bod sianelau cyfathrebu clir ar gael i'r ar gyfer gwella gwasanaethau a darpariaeth yr awdurdod.'

### 4.4 Rheoli ymddygiad bwlio

Er bod polisïau ac arferion effeithiol yn ceisio atal a lleihau ymddygiad bwlio i'r graddau y mae hynny'n bosibl, cydnabyddir bod ymddygiad bwlio yn digwydd a phan fydd hyn yn digwydd dylai polisi gwrth-fwlio'r ysgol nodi'n glir sut y byddant yn ymateb iddo. Mae hyn yn debygol o gynnwys nifer o gamau:

1) Mae pawb o fewn y gymuned ysgol yn deall ac yn gallu cael mynediad at y llwybrau i adrodd pryderon a theimlo'n hyderus i wneud hynny.
2) Bod y rhai sy'n cael eu hysbysu ynghylch pryderon yn teimlo'n hyderus i ymateb a rheoli'r sefyllfa. Gallai hyn gynnwys ceisio cymorth gan gydweithwyr, darparu sicrwydd i'r rhai sydd wedi adrodd eu pryderon ac ystyried a yw'n briodol cynnwys rhieni. Hefyd, mae angen i oedolion sicrhau eu bod yn ymwybodol o dueddiadau ac iaith ddiweddaraf plant a phobl ifanc er mwyn galluogi dialog agored, er enghraifft, os bydd myfyriwr yn adrodd bwlio ar-lein maent yn debygol o gyfeirio at safleoedd neu apiau a ddefnyddiwyd.
3) Ymateb cyflym sy'n hyrwyddo ymchwiliad priodol gan yr oedolion mwyaf priodol. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n gysylltiedig yn gallu ac yn cael eu cefnogi i gael llais yn y broses hon a'u bod yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed.
4) Darparu adborth i bartïon perthnasol a sicrhau eu bod yn deall y camau a gymerwyd i wneud penderfyniadau a beth yw'r penderfyniadau hynny.

5) Cwblhau ffurflenni digwyddiadau perthnasol a chofnodi ac ystyried patrymau ailadroddus parhaus mewn cysylltiad â myfyrwyr, ymddygiad ac yn y blaen.
6) Pan fydd hynny'n briodol, gweithredu cosbau clir.
7) Pan fydd yn briodol, gweithredu ymyriadau i gefnogi pawb sy'n gysylltiedig â lleihau ymddygiad parhaus.
8) Adolygiadau posibl yn y dyfodol o'r datrysiad a'r sefyllfa.

Mae'n eithriadol o bwysig bod aelodau o staff yn teimlo'n hyderus bod datrysiad wedi'i gyflawni a bod yr ymddygiad(au) bwlio wedi dod i ben, oherwydd mae hyn yn lleihau'r effaith ar bawb sy'n gysylltiedig ac sy'n gwneud newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Dylid cydnabod hefyd y gallai datrysiad gymryd amser i rai partïon a gallai fod angen ymyriadau adferol, megis:

- Cyfryngu cymheiriaid.
- Gwaith/addysgu grŵp bychan.
- Gwaith/addysgu grŵp cyfan.
- Gweithgareddau meithrin tîm.

Os ystyrir y byddai'n briodol, dylai ysgolion geisio arweiniad a chymorth gan asiantaethau allanol a hwy sy'n debygol o fod yn y sefyllfa orau i benderfynu ar raglenni priodol eu hunain, yn seiliedig ar eu gwybodaeth am eu cymuned eu hunain.

Mae hefyd yn bwysig ystyried a yw'r mathau o ymddygiad dan sylw yn pwysleisio diffyg dealltwriaeth gan y rhai sy'n gysylltiedig ac felly mae angen cyfleoedd i addysgu a datblygu sgiliau a gwybodaeth er mwyn rhwystro digwyddiadau rhag digwydd eto. Er enghraifft:

- Myfyriwr yn dysgu sut i osod gosodiadau preifatrwydd ar eu dyfeisiau neu broffiliau er mwyn lleihau'r risg o wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu neu ei chyrchu.
- Datblygu dealltwriaeth unigolyn o ddefnydd priodol o iaith a therminoleg briodol.
- Rhannu gwybodaeth er mwyn i'r gymuned gael dealltwriaeth well o wahaniaethau eraill e.e. cyflyrau meddygol, diwylliannau, anghenion dysgu ychwanegol.

Mae rheoli unrhyw ymddygiad bwlio yn effeithiol yn hollbwysig er mwyn atgyfnerthu ymrwymiad yr ysgol i hyrwyddo amgylchedd diogel i bawb.

# 5. Casgliad

Mae'r strategaeth hon yn darparu fframwaith i hybu safbwynt Sir Ddinbych bod pob plentyn a pherson ifanc yn bwysig a'u bod yn cael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial. Bydd gwaith gwrth-fwlio yn parhau i fod yn ffocws i'r awdurdod a'i bartneriaid allweddol, o ran eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau statudol a'u safbwynt cyffredinol y dylai amgylcheddau a chymunedau ysgolion herio a mynd i'r afael ag unrhyw fath o fwlio, gwahaniaethu neu ragfarn.

### 5.1 Ymgynghori ar y strategaeth

I gefnogi datblygiad cychwynnol y strategaeth ddrafft hon, ymgynghorwyd gyda chrynrychiolwyr Gwasanaeth Plant Sir Ddinbych.

Ar ol cwblhau draft y stategaeth, cynhaliwyd ymgynghoriad agored i gael barn cynulleidfa ehangach a phobl y gallai ei chynnwys effeithio arnynt. Roedd y ymgynghoriad ar gael drwy Borth Sgwrs y Sir. Datblygwyd dwy fersiwn addas i blant hefyd (cynradd ac uwchradd) i gael barn plant a phobl ifanc yn ysgolion Sir Ddinbych.

Teimlai 100% o’r ymatebwyr fod y stategaeth yn

- Rhoi digon o wybodaeth i ysgolion fynd i’r afael â bwlio ac ymgorffori ymagwedd Ysgol gyfan at ymddygiad bwlio.
- Cyfathrebu a hyrwyddo pwysigrwydd cydraddoldeb i bobl â ‘nodweddion gwarchodedig’ (e.e. anabledd, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd neu gred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth).
- Rhoi gwybodaeth ac enghreifftiau perthnasol i sicrhau bod pob maes o fwlio yn cael ei esbonio'n glir.
- Rhoi gwybodaeth ac enghreifftiau perthnasol i sicrhau bod pob maes o fwlio yn cael ei esbonio'n glir.
- Rhoi digon o wybodaeth i ysgolion a'r awdurdod lleol gydweithio i fynd i'r afael â'r maes bwlio.
- Ei gwneud yn glir bod gwaith gwrth-fwlio yn faes pwysig

Roedd 100% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r prif amcanion a amlinellwyd ar dudalen 3 o'r strategaeth hon ac roedd sylwadau ychwanegol yn nodi bod y strategaeth yn cefnogi ysgolion i sicrhau bod popeth yn cael ei gynnwys ym mholisi'r ysgol.

Disgwylir i ysgolion gynnal eu hymgynghoriad eu hunain o unrhyw bolisïau maent yn eu datblygu/addasu o ganlyniad i’r strategaeth hon.

Dechreuwyd Asesiad o’r Effaith ar Les yn ystod cam datblygu’r strategaeth ac ailymwelwyd ag ef ym mis Mawrth 2021 cyn yr ymgynghoriad uchod. Bydd hyn yn cael ei ailystyried, os oes angen, cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol.

### 5.2 Monitro’r strategaeth

Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei hadolygu dair blynedd ar ôl y dyddiad cyhoeddi, neu’n gynharach os ystyrir y byddai hynny’n briodol yn sgil diweddariadau i ddeddfwriaeth neu arfer. Bydd yr adolygiad yn cynnwys y strategaeth a chysylltu ag ysgolion i benderfynu ar ei defnyddioldeb a’i heffaith ar arfer.

**Atodiad 1** – Dogfennau allweddol

- Deddf Addysg 2002 – Adran 175 (dyletswyddau awdurdodau a chyrff llywodraethu mewn cysylltiad â lles plant). https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/32/contents
- Deddf Cydraddoldeb 2010. https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents
- Canllawiau Llywodraeth Cymru – Herio bwlio 2019
    - Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllaw statudol ar gyfer awdurdodau lleol.
    - Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllaw statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir.
    - Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllaw i rieni a gofalwyr.
    - Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllaw i ysgolion.
    - Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllaw i bobl ifanc.

- Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau i blant. https://llyw.cymru/bwlio-yn-yr-ysgol

- ❖ Cynnwys a chynorthwyo disgyblion (2016). https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf
- ❖ Cadw dysgwyr yn ddiogel (2015). https://llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel
- ❖ Meddwl yn gadarnhaol: Iechyd a lles emosiynol mewn ysgolion a lleoliadau Blynyddoedd Cynnar (Llywodraeth Cymru, 2010). https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/meddwl-yn-gadarnhaol-iechyd-a-lles-emosiynol-mewn-ysgolion-a-lleoliadau-blynyddoedd-cynnar.pdf
- ❖ Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela mewn Ysgolion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Diwygio2020). https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/pecyn-cymorth-gweithredu-cwnsela-mewn-ysgolion-ac-yn-y-gymuned_0.pdf
- ❖ Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008: Canllawiau Statudol Ynghylch y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan (2017). https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2008/2/contents

**Atodiad 2 –** Camau i'w hystyried wrth ddatblygu polisi:

**Cam 1 – Gweithgor**
Ffurfio grŵp i ddatblygu'r darn o waith hwn ac a fydd yn gallu, yn yr achos cyntaf, cytuno ar ymrwymiad yr ysgolion i herio pob math o fwlio. I'r graddau y mae'n bosibl, dylai'r grŵp hwn gynnwys ystod o aelodau o'r ysgol a'r gymuned.

Mae'n bwysig bod sgwrs yn dechrau i sicrhau bod y rhai sy'n gysylltiedig â hyn yn deall y profiadau o fwlio. Gallai hyn hefyd gynnwys adolygu data PASS ysgolion er mwyn ystyried pa mor ddiogel mae myfyrwyr yn teimlo yn yr ysgol a siarad gyda'r rhai sy'n gysylltiedig â digwyddiadau o fwlio.

**Cam 2 – Cytuno ar ddiffiniad o fwlio**
Mae angen i hyn fod yn hawdd ei ddeall a dylai ddisgrifio'n glir y mathau o ymddygiad sy'n cael eu cwmpasu gan y polisi.

**Cam 3 – Cyswllt i ddogfennaeth berthnasol**
Mae'n bwysig ystyried pa bolisïau sydd mewn grym yn awr yn yr ysgol, yr awdurdod ac yn genedlaethol a sut y byddant yn cysylltu. Mae angen ystyried hefyd y ddeddfwriaeth a fydd yn gorfod ategu'r polisi.

**Cam 4 – Atal**
Ystyried a chytuno ar y camau a gymerir i atal bwlio yn y gymuned ysgol. Mae'n bwysig bod yr ysgol yn mabwysiadu ystod o strategaethau rhagweithiol ac ataliol sydd nid yn unig yn codi ymwybyddiaeth o fwlio ond sydd hefyd yn sicrhau ei fod yn faes gwaith parhaus a lle bo'n bosibl, dylai strategaethau adeiladu ar arfer da presennol. Er enghraifft:

- Yr ethos ysgol gyfan i sicrhau ei bod yn ddiogel a llwyddiannus i bawb ac sy'n dathlu gwahaniaeth ac yn hyrwyddo cynhwysiant.
- Gwaith datblygu ac addysgu parhaus drwy ymgorffori gwrth-fwlio yn y cwricwlwm.
- Cefnogaeth gan asiantaethau/gweithwyr proffesiynol allanol fel y bo'n briodol.
- Dulliau gweithredu cytûn wedi'u targedu i'w defnyddio pan fydd gweithredoedd bwlio wedi'u nodi.
- Safbwynt clir ar iaith briodol ac amhriodol i'w defnyddio yng nghymuned yr ysgol. Er enghraifft, herio 'herian' ac iaith hiliol a gweithio at ddealltwriaeth o'r niwed y gellir ei achosi i eraill os defnyddir iaith yn y ffordd anghywir.
- Ymrwymiad i hyfforddiant a datblygiad parhaus staff.
- Diwrnod ymwybyddiaeth gwrth-fwlio blynyddol.

**Cam 5 – Adrodd**
Mae'n bwysig bod y gymuned gyfan yn ymwybodol bod ganddynt rôl i'w chwarae yn adrodd ymddygiad bwlio a deall sut y gallant wneud hynny. Felly, mae'n rhaid i'r polisi nodi'n glir meysydd megis:

- Annog pobl i adrodd bwlio a hyrwyddo hynny fel cam cadarnhaol.
- Cyfathrebu strwythur adrodd clir i bawb.
- Hyrwyddo gweithdrefn gwyno agored (dylid ystyried sut mae hyn yn cysylltu â pholisi cwynion yr ysgol).
- Dulliau adrodd sy'n hygyrch i bawb.

**Cam 6 – Ymateb**
Dylai'r polisi gyfleu bod gan bawb gyfrifoldeb i ymateb i a rheoli gweithredoedd o fwlio ac mae'n bwysig bod y polisi yn disgrifio sut y gellir cyflawni hyn a'r gefnogaeth sydd ar gael. Dyliddathlu arfer da sydd eisoes ar waith a bod unrhyw fentrau sy'n cael eu defnyddio yn cael eu hesbonio a'u hamlygu.

Dylid nodi'n glir pa gamau gweithredu y gellir eu disgwyl os gwneir adroddiad o fwlio a'r sefyllfaoedd pan allai fod angen i ysgol geisio cyfranogiad gan asiantaethau, er enghraifft y Gwasanaethau Plant a'r Heddlu. Dylai hyn hefyd gynnwys esboniad o sut a phryd y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda rhieni a gofalwyr.

Ystyrir y byddai'n arfer da ystyried yr ymateb ar gyfer y targed, y tramgwyddwr a'r gwyliedyddion a, lle bynnag y bo'n bosibl, hyrwyddo ymateb rhagweithiol sy'n ceisio gwneud newidiadau cadarnhaol i ddyfodol pawb.

**Cam 7 – Cofnodi a monitro**
Mae'n bwysig disgrifio'n glir sut y bydd data bwlio yn cael ei gofnodi a'i fonitro i gefnogi gwaith gwrth-fwlio'r ysgol. Dylid cyfeirio hefyd at ddisgwyliad Awdurdod Lleol i adroddiad data bwlio gael ei rannu gyda hwy ddwywaith y flwyddyn a sut y rhennir gwybodaeth gyda chorff llywodraethu'r ysgol.

Dylid hefyd ystyried sut mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi, ei chadw a'i monitro, a'i bod yn cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data, er enghraifft GDPR yr UE a DPA y DU 2018.

**Cam 8 – Gwerthuso ac adolygu**
Argymhellir bod polisïau'n cael eu hadolygu o leiaf bob tair blynedd a'u bod yn debygol o gael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Dylai'r polisi nodi sut y bydd hyn yn cael ei gyflawnia phwy fydd yn gysylltiedig â hyn – Gweler Atodiad 3 am arweiniad.

**Cam 9 – Ymgynghori ar y drafft terfynol**
Dylai'r gweithgor fod mewn sefyllfa yn awr i ysgrifennu polisi drafft sy'n seiliedig ar y camau uchod a dylai gynnal ymgynghoriad yn awr er mwyn gallu ei symud ymlaen i fersiwn drafft terfynol. Dylai'r ymgynghoriad gynnwys y gymuned ysgol a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan y polisi. Mae'n debygol y bydd rhai newidiadau'n cael eu gwneud yn dilyn ymgynghoriad, er mwyn gallu symud ymlaen i'r fersiwn terfynol.

Bydd angen i gorff llywodraethu'r ysgol ystyried a chymeradwyo'r polisi terfynol.

**Cam 10 – Rhannu**
Ar ôl cytuno ar y polisi terfynol mae'n bwysig ystyried sut y bydd hyn yn cael ei gyfleu a'i rannu gyda'r gymuned ysgol a phartïon perthnasol. Dylid talu sylw yn benodol i'r rhai sy'n cael eu hystyried yn anodd eu cyrraedd a hefyd yr arddull cyfathrebu er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrchi bawb. Ystyrir bod hyn yn arfer da er mwyn datblygu fersiwn sy'n addas i blant.

Efallai y bydd lansio'r polisi yn briodol a gellir defnyddio hyn fel dathliad o waith caled y camau uchod. Gellir defnyddio hyn hefyd fel ffordd o atgyfnerthu ei negeseuon.

Mae'n bosibl y bydd y gweithgor yn dymuno parhau gyda'r maes gwaith hwn neu ystyried ei faint a/neu aelodaeth ar gyfer gwaith adolygu yn y dyfodol.

**Atodiad 3 –** Camau i'w hystyried wrth adolygu polisi:

**Cam 1 – Gweithgor.**
Ffurfio grŵp i edrych ar y polisi presennol. I'r graddau y bo'n bosibl, dylai hyn gynnwys:

- Derbynwyr y polisi – person ifanc a rhiant/gofalwr os yn bosibl.
- Gweithredwyr y polisi – cynrychiolwyr o blith staff yr ysgol.
- Arweinydd Gwrth-fwlio'r ysgol.
- Aelod o'r Uwch Dîm Arwain.
- Aelod o'r gymuned.
- Llywodraethwr enwebedig yr ysgol.

Dylid gweithredu'r dull hwn ar sail clwstwr os bydd nifer o ysgolion yn adolygu eu polisïau'r un pryd.

**Cam 2 – Ymgynghori – pa mor effeithiol yw'r polisi presennol?**
Argymhellir eich bod yn ymgynghori â phobl sy'n gweithredu neu sy'n derbyn y polisi presennol, er mwyn canfod pa mor effeithiol a fu. A yw wedi cael effaith yn atal bwlio a delio â digwyddiadau?
Cwestiynau allweddol y mae angen i chi eu hateb -

- A yw pawb yn y gymuned ysgol yn gwybod sut i gael mynediad at y polisi ac a ydynt yn ymwybodol o'i gynnwys?
- A yw'r plant a'r rhieni yn gwybod pwy y dylent gysylltu â hwy os bydd digwyddiad?
- Sut mae'r polisi yn cael ei ddosbarthu i gynulleidfaoedd gwahanol?
- A oes proses i fyfyrwyr a rhieni/gofalwyr roi adborth ar eu profiadau o gymhwysiad y polisi?

**Cam 3 – Cryfderau a gwendidau'r polisi presennol drwy'r wybodaeth a gasglwyd yng Ngham 2.**
Y polisi ar waith:

- Beth sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd angen ei ddiwygio?
- A oes angen ymgynghoriad pellach?
- A gasglwyd unrhyw ddata effeithiol sy'n gallu dangos gostyngiad neu newidiadau i ddigwyddiadau bwlio?
- A yw'r staff yn gweithredu'r polisi'n gyson?

**Cam 4 – Gwneud newidiadau priodol i'r polisi.**
Ar ôl dilyn y tri cham blaenorol, dylai'r ysgol allu dangos tystiolaeth yn awr o ba newidiadau sydd angen eu gwneud i'r polisi presennol. Ers lansio'r polisi gwreiddiol, dylid ystyried newidiadau deddfwriaethol a rheolaethol newydd sydd wedi digwydd a'u bwydo i mewn i'r polisi fel y bo'n briodol.

Dylai'r gweithgor adolygu'r arferion presennol ar gyfer:

- Adrodd a monitro honiadau o fwlio.
- Hysbysu rhieni/gofalwyr a'r heddlu, os bydd angen.
- Cefnogaeth tymor byr a hirdymor i'r rhai sy'n cael eu bwlio.
- Rheoli a chefnogi'r rhai y canfuwyd eu bod yn cyflawni ymddygiad bwlio.

Gallai meysydd eraill gynnwys: A oes angen hyfforddi aelodau o staff ar strategaethau newydd neu ddiweddaru neu ehangu hyfforddiant ar strategaethau presennol? A ydynt wedi

mynd i'r afael â'r goblygiadau o ran costau ar gyfer y sesiynau hyfforddi y bydd eu hangen er mwyn gwella effeithiolrwydd strategaeth gwrth-fwlio'r awdurdod.

**Cam 5 – Ei gasglu ynghyd ac ymgynghoriad pellach os bydd angen.**
Ar y cam hwn dylid casglu'r polisi drafft ynghyd a'i gyhoeddi ar gyfer y gweithgor. Byddai'n arfer da rhannu'r fersiwn drafft gyda'r rhai a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol ganddo ahefyd asiantaethau eraill y byddai'r ysgol yn cysylltu â hwy i gael cymorth yn dilyn adroddiad o achosion o fwlio.

**Cam 6 – Y drafft terfynol a thu hwnt.**
Dylid trafod unrhyw fewnbwn o'r cyfnod ymgynghori a gwneud newidiadau fel y bo'n briodol. Bydd angen i gorff llywodraethu'r ysgol ystyried y polisi a'i gymeradwyo. Dylid penderfynu prydy dylid cynnal yr adolygiad nesaf o'r polisi. Efallai y bydd y gweithgor yn dymuno argymell cynnwys dyddiadau ar gyfer hyfforddiant staff a llywodraethwyr ac yn y blaen.

Ar y cam hwn, mae angen i'r ysgol gynllunio i godi ymwybyddiaeth o'r polisi, ei fodolaeth a'i weithrediad. Mae'n bosibl y bydd y gweithgor yn dewis diddymu neu leihau mewn maint ar y pwynt hwn.